Bywyd newydd yn ...
Life begins at ...
CARMARTHENSHIRE
SIR GÂR 50+

# Fforwm 50+
# Arolwg 9

**Os oes gennych fynediad i'r we, ystyriwch gwblhau'r ffurflen drwy: www.sirgar50.org.uk**
**Cwblhewch yr holiadur erbyn dydd *Gwener 12 Hydref***

**Rhif aelodaeth**

**Beth yw pedwar digid cyntaf eich cod post?**

**Beth ydych?**

- *dyn*
- *menyw*

**Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?**

- *50-59*
- *60-69*
- *70+*

# Canfyddiad y Cyhoedd - Heddlu Dyfed Powys

**Ers pryd ydych chi wedi byw yn yr ardal hon?**

- *0-12 mis*
- *1-5 mlynedd*
- *6-10 mlynedd*
- *11-15 mlynedd*
- *16-20 mlynedd*
- *21+ mlynedd*

**Dywedwch wrthym pa mor aml yr ydych chi'n cael eich effeithio gan y problemau canlynol yn eich ardal leol.**

| | *byth* | *yn anaml* | *weithiau* | *yn aml* | *yn gyson* |
|---|---|---|---|---|---|
| sŵn yn y gymdogaeth (partïon swnllyd / cŵn yn cyfarth / dadleuon) | | | | | |
| pobl ifainc yn loetran ar y strydoedd | | | | | |
| gwastraff / Ysbwriel (yn cynnwys baw cŵn / tipio anghyfreithlon) | | | | | |
| fandaliaeth neu ddifrod i eiddo neu gerbydau (gan gynnwys graffiti) | | | | | |
| ymddygiad meddw neu swnllyd | | | | | |
| problemau cerbydau (e.e. parcio / achosi rhwystr / wedi eu gadael) | | | | | |
| goryrru | | | | | |
| bwlio / erledigaeth | | | | | |

**Os ateboch ‘Yn Aml’ neu ‘Yn Gyson’ ar gyfer unrhyw un o’r uchod, rhowch fanylion isod os gwelwch chi’n dda.**

**O’r rhestr isod, dywedwch wrthym pa rai sydd o bryder i chi yn eich ardal leol.**

| | *byth* | *yn anaml* | *weithiau* | *yn aml* | *yn gyson* |
|---|---|---|---|---|---|
| byrgleriaeth gan gynnwys dwyn (e.e. siopladrata) | | | | | |
| lladrad | | | | | |
| trosedd cerbydau | | | | | |
| troseddau treisgar | | | | | |
| difrod troseddol, gan gynnwys cynnau tân yn fwriadol | | | | | |
| cyffuriau a throseddau’n gysylltiedig â chyffuriau | | | | | |
| anrhefn gyhoeddus ac arfau | | | | | |
| arall (dywedwch wrthym isod) | | | | | |

**Os ateboch ‘Yn Aml’ neu ‘Yn Gyson’ ar gyfer unrhyw un o’r uchod, neu os ddewisoch ‘Arall’, rhowch fanylion isod.**

**Fel trigolyn o ardal Heddlu Dyfed-Powys, pa mor bwysig yw hi i chi allu:**

| | *ddim yn bwysig o gwbl* | *ddim yn bwysig iawn* | *dim un ffordd neu'r llall* | *eithaf pwysig* | *pwysig iawn* |
|---|---|---|---|---|---|
| cysylltu’n hawdd gyda rhywun a allai’ch helpu chi (101 / 999 / e-bost) | | | | | |
| cysylltu gyda Heddwas / PCSO o Heddlu Dyfed-Powys yn uniongyrchol | | | | | |
| gweld Heddwas / PCSO yn cerdded ar hyd strydoedd eich ardal | | | | | |
| gweld Heddwas / PCSO mewn cerbyd patrôl yn eich ardal | | | | | |
| cyfathrebu gyda Heddweision / PCSOs yn aml (e.e. cyfarfodydd PACT) | | | | | |

**Pe bai angen i chi ddod o hyd i wybodaeth am Heddlu Dyfed-Powys, pa rai o’r dulliau canlynol fyddai fwyaf effeithiol? (Ticiwch bob un sy’n berthnasol)**

- ☐ *erthyglau papur newydd*
- ☐ *radio lleol*
- ☐ *posteri*
- ☐ *cyfarfodydd PACT / cymorthfeydd cymunedol*
- ☐ *y rhif difrys (101)*
- ☐ *gwasanaeth neges destun*
- ☐ *gwefan Heddlu Dyfed Powys*
- ☐ *gwefan plismona cenedlaethol (www.police.uk)*
- ☐ *cysylltu â heddwas / PCSO lleol*
- ☐ *cylchythyrau*
- ☐ *cysylltu â’r orsaf leol*
- ☐ *safleoedd rhwydweithio cymdeithasol (Facebook / Twitter)*
- ☐ *hysbysfyrddau mewn siopau / llyfrgelloedd*

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â’r datganiadau canlynol am yr Heddlu yn yr ardal hon?**

| | *cytuno'n llwyr* | *cytuno* | *dim yn cytuno nag yn anghytuno* | *anghytuno* | *anghytuno'n gryf* | *ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| gan ystyried popeth, mae gennyf hyder yn yr heddlu yn fy ardal leol | | | | | | |
| mae'r Heddlu yn yr ardal yma yn ymdrin â'r pethau sy'n bwysig i'r bobl yn fy ardal leol | | | | | | |
| rwy'n teimlo'n wybodus am faterion plismona yn fy ardal leol | | | | | | |

**Beth yw eich barn ar blismona yn eich ardal leol?**

- ◯ *gwych*
- ◯ *da*
- ◯ *teg*
- ◯ *gwael*
- ◯ *gwael iawn*

**Esboniwch eich ateb i gwestiwn 13 os gwelwch chi'n dda.**

**Efallai y byddwch yn ymwybodol y bydd y cyhoedd yn cael cyfle i ethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am y tro cyntaf erioed ar 15 Tachwedd 2012. Bydd y Comisiynydd yn atebol am y modd y caiff trosedd ei daclo yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy am hyn, ewch i wefan Awdurdod yr Heddlu; www.dyfedpowyspoliceauthority.co.uk/cy/node neu galwch 01267 226440.**

**Yn eich barn chi, pa un o'r canlynol ddylai fod yn brif flaenoriaeth i'r Comisiynydd newydd fynd i'r afael ag ef yn eich ardal leol chi? (Ticiwch UN yn unig).**

- *hygyrchedd / Presenoldeb gweladwy yr Heddlu*
- *ymddygiad gwrthgymdeithasol*
- *lladrad eiddo (gan gynnwys byrgleriaeth)*
- *troseddau'n gysylltiedig â chyffuriau*
- *gwrthderfysgaeth*
- *lladrad a difrodi cerbydau*
- *troseddau rhyw a throseddau treisgar*
- *arall (nodwch isod)*

**Nodwch y rhesymau dros eich dewis.**

# Materion i ofalwyr

**Ystyr gofalwr yw rhywun o unrhyw oedran sy'n rhoi cymorth di-dâl i aelodau o'r teulu neu ffrindiau y gallai eu hiechyd neu eu lles ddioddef heb y cymorth hwn. Gallai hyn gynnwys gofalu am berthynas, partner, plentyn neu ffrind sy'n sâl, yn fregus, yn anabl neu sydd â phroblemau iechyd meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau.**

**Ar sail y diffiniad uchod, a fyddech yn eich ystyried eich hunan yn ofalwr?**

- *byddwn*
- *na fyddwn (ewch at gwestiwn 28)*

**Pwy ydych chi'n gofalu amdano/amdani?**

- *gwaig/gŵr/partner*
- *rhiant/rhiant yng nghyfraith*
- *modryb/ewythr*
- *mab/merch*
- *Ŵyr/wyres*
- *nith/nai*
- *brawd/chwaer (gan gynnwys brawd/chwaer yng nghyfraith neu lysfrawd/llyschwaer)*
- *ffrind*
- *cymydog*
- *arall*

*(rhowch fanylion isod)*

**Pam oes angen gofal ar yr unigolyn hwn?**

- ☐ *anabledd corfforol*
- ☐ *problemau symud*
- ☐ *llesgedd*
- ☐ *salwch neu gyflwr hirdymor neu ddifrifol*
- ☐ *dementia neu broblemau cofio*
- ☐ *anabledd dysgu neu gyflwr sbectrwm awtistig*
- ☐ *problemau cyfathrebu*
- ☐ *iechyd meddwl (gan gynnwys pryder/iselder)*
- ☐ *anawsterau synhwyraidd (e.e. dall/nam ar y clyw)*
- ☐ *problemau cyffuriau neu alcohol*
- ☐ *arall*

*(rhowch fanylion isod)*

**Ers pryd rydych chi'n gofalu am yr unigolyn hwn?**

- ○ *llai na blwyddyn*
- ○ *1-5 mlynedd*
- ○ *6-10 mlynedd*
- ○ *11-15 mlynedd*
- ○ *16-20 mlynedd*
- ○ *21 mlynedd +*

**Ar gyfartaledd, faint o oriau yr wythnos yr ydych chi'n eu treulio'n gofalu?**

- ○ *hyd at 20 awr*
- ○ *21-35 awr*
- ○ *36-50 awr*
- ○ *50 awr +*

**A ydych chi wedi derbyn unrhyw wybodaeth i'ch helpu yn eich rôl gofalu?**

- ○ *ydw*
- ○ *nac ydw*

**Os nad ydych, pa fath o wybodaeth fyddai'n eich helpu yn eich barn chi?**

**Yn eich barn chi, ble dylai Gwybodaeth i Ofalwyr fod ar gael er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn derbyn gwybodaeth cyn gynted â phosibl?**

- ☐ *gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr*
- ☐ *sefydliadau gwirfoddol/trydydd sector eraill*
- ☐ *gweithwyr Cymdeithasol*
- ☐ *canolfan Gyswllt y Cyngor Sir*
- ☐ *meddygfa*
- ☐ *ystafelloedd aros mewn ysbytai*
- ☐ *llyfrgelloedd*
- ☐ *timoedd Iechyd Cymunedol (e.e. ymwelwyr iechyd, ffisiotherapyddion)*
- ☐ *arall*

*(rhowch fanylion isod)*

**A oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor eich hunan?**

- ○ *oes (rhowch fanylion isod*
- ○ *nac oes*

**A ydych chi erioed wedi gorfod gohirio neu ganslo triniaeth neu lawdriniaeth oherwydd eich dyletswyddau gofalu?**

- ○ *ydw*
- ○ *nac ydw*

**Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ar y cyd ag Awdurdodau Lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a darparwyr gwasanaethau, yn paratoi ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ynghylch ei Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori i Ofalwyr. Mae'r strategaeth yn cael ei llunio mewn ymateb i Fesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 Llywodraeth Cymru.**

**A fyddai gennych chi ddiddordeb mewn derbyn rhagor o wybodaeth am y strategaeth?**

- ◯ *byddai*
- ◯ *na fyddai*

# Ymgynghori ar wasanaethau gofal iechyd Bwrdd Iechyd Hywel Dda

**Mae'r holiadur ymgynghori hwn yn rhoi cyfle i chi roi eich barn ynghylch ymateb Bwrdd Iechyd Hywel Dda i her 'Law yn Llaw at Iechyd'.**

**Mae'r adborth a gasglwyd yn ein hymarfer gwrando ac ymgysylltu eisoes wedi'i gynnwys yng ngweledigaeth gyffredinol y Bwrdd Iechyd, ac mae'r cwestiynau yn yr holiadur yn ymwneud â newidiadau sylweddol a phenodol i wasanaethau sy'n cael eu cyflwyno yn y cynigion allweddol ynglŷn â:**

**Gwasanaethau Cymunedol a Gofal Sylfaenol; a**
**Gwasanaethau Ysbyty.**

**Gallwch ddarllen y cynigion llawn yn nogfen ymgynghori Bwrdd Iechyd Hywel Dda.**

## Gwasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol

**Ysbytai cymunedol - darllenwch adran 5 o'r ddogfen.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion i gau Ysbyty Mynydd Mawr yn y Tymbl (ger Llanelli) a darparu'r gwasanaethau a roddir yno ar hyn o bryd mewn ffyrdd eraill? TICIWCH ✓ UN BLWCH YN UNIG**

- ◯ *cytuno'n gryf*
- ◯ *tueddu i gytuno*
- ◯ *ddim yn cytuno nac yn anghytuno*
- ◯ *tueddu i anghytuno*
- ◯ *anghytuno'n gryf*
- ◯ *ddim yn gwybod neu nid yw'n effeithio arnaf*

**Unedau mân anafiadau - darllenwch adran 5 o'r ddogfen.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion i drosglwyddo'r gwasanaeth mân anafiadau yn Ysbyty Dinbych-y-pysgod i feddygfeydd lleol ac i adleoli'r Ymarferwyr Nyrsio sy'n gweithio yno ar hyn o bryd? TICIWCH ✓ UN BLWCH YN UNIG**

- ◯ *cytuno'n gryf*
- ◯ *tueddu i gytuno*
- ◯ *ddim yn cytuno nac yn anghytuno*
- ◯ *tueddu i anghytuno*
- ◯ *anghytuno'n gryf*
- ◯ *ddim yn gwybod neu nid yw' n effeithio arnaf*

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion i drosglwyddo gwasanaeth mân anafiadau Ysbyty De Sir Benfro i feddygfeydd ac i adleoli'r Ymarferwyr Nyrsio sy'n gweithio yno ar hyn o bryd? TICIWCH ✓ UN BLWCH YN UNIG**

- ◯ *cytuno'n gryf*
- ◯ *tueddu i gytuno*
- ◯ *ddim yn cytuno nac yn anghytuno*
- ◯ *tueddu i anghytuno*
- ◯ *anghytuno'n gryf*
- ◯ *ddim yn gwybod neu nid yw'n effeithio arnaf*

**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?**

**A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu cyflwyno ynghylch cynigion Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol a Gofal Sylfaenol?**

# Gwasanaethau ysbytai

**Gwasanaethau menywod a phlant**

**Mae dau ddewis ar gyfer newid. Darllenwch Adran 7 o'r ddogfen**
**Yn y cynigion ar gyfer Gwasanaethau Menywod a Phlant, bydd y DDAU DDEWIS yn…**

**Parhau i ddarparu gwasanaethau obstetreg a arweinir gan ymgynghorwyr yn ysbytai Bronglais, Glangwili a Llwynhelyg.**

**Darparu gofal cyn geni effeithiol, gan gynnwys sgrinio rheolaidd i wirio bod beichiogrwydd yn mynd rhagddo yn ddiogel fel y cynlluniwyd ac i sicrhau bod babanod yn cael eu geni yn y lleoliad mwyaf diogel.**

**Sicrhau bod y babanod hynny sydd ag anghenion uchel iawn yn derbyn gofal Lefel 3 (Gofal Dwys) mewn Uned Newyddenedigol yn Ysbyty Singleton, Abertawe.**

**Darparu gwasanaethau pediatrig cleifion mewnol a chleifion allanol, a gwasanaethau nyrsys ysgol a chymunedol, ymhob un o'r tair sir.**

**Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cynnig datblygu Uned Dibyniaeth Uchel Bediatrig ac Uned Newyddenedigol Lefel 2 (sef uned sy'n rhoi gofal arbenigol i fabanod sâl) er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr lefel uwch ar gyfer plant sâl am y tro cyntaf o fewn y Bwrdd Iechyd.**

**Ar gyfer beichiogrwydd lle bo risg wedi'i nodi naill ai i'r fam neu'r baban, rydym yn cynnig y bydd y gofal yn cael ei arwain gan ymgynghorydd mewn Uned Obstetreg Gymhleth newydd, a fydd wedi'i chyd-leoli gyda'r Uned Newyddenedigol Lefel 2.**

**Mae dau ddewis ar gyfer hyn - naill ai Ysbyty Glangwili neu Ysbyty Llwynhelyg.**
**Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cynnig YSBYTY GLANGWILI.**

**Nodwch lle y byddai'n well gennych i'r Uned Dibyniaeth Uchel Bediatrig, yr Uned Newyddenedigol Lefel 2 a'r Uned Obstetreg Gymhleth gael eu lleoli. TICIWCH ✓ UN BLWCH YN UNIG**

- ○ *Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin*
- ○ *Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd*
- ○ *ddim yn gwybod neu nid yw'n effeithio arnaf*

**Mae'n bosib na fyddwn yn gallu recriwtio digon o feddygon i'r gwasanaeth hyd yn oed pe bai'r cynigion uchod yn cael eu mabwysiadu. Byddai hyn yn effeithio ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau pediatrig cleifion mewnol ar draws y tri safle.**

**Yn yr achos hwnnw, mae'n bosibl y bydd angen i ni ystyried dewis arall lle byddai gwasanaethau pediatrig cleifion mewnol yn cael eu darparu ar ddau safle yn unig - Ysbyty Bronglais yn y gogledd a naill ai Ysbyty Glangwili neu Ysbyty Llwynhelyg yn y de. Y dewis olaf un fyddai hwn, pe bai system drafnidiaeth argyfwng wedi'i sefydlu a phe bai ein clinigwyr yn fodlon bod hyn yn ddiogel i'w gweithredu.**

**Dan amgylchiadau o'r fath, byddai Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cynnig YSBYTY GLANGWILI.**

**Pe byddai ond yn bosibl darparu gwasanaethau pediatrig cleifion mewnol yn Ysbyty Bronglais yn y gogledd ac mewn un ysbyty yn y de, nodwch ba ysbyty yn y de lle byddai'n well gennych dderbyn y gwasanaethau. TICIWCH ✓ UN BLWCH YN UNIG**

- ○ *Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin*
- ○ *Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd*
- ○ *ddim yn gwybod neu nid yw'n effeithio arnaf*

**A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu cyflwyno ynghylch cynigion Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar gyfer Gwasanaethau Menywod a Phlant?**

**Gofal brys. Mae dau ddewis ar gyfer newid. Darllenwch Adran 7 o'r ddogfen**

**Yn y cynigion ar gyfer Gofal Brys, bydd y DDAU DDEWIS yn…**

**Rhoi gwasanaethau llawfeddygol a arweinir gan ymgynghorwyr yn y tair sir.**

**Darparu mynediad cyflym at feddygon arbenigol a phrofion diagnostig - i lawer gall hyn gael ei ddarparu mewn amgylchedd claf allanol / amgylchedd asesu (gan arwain at ostyngiad mewn gwelyau cleifion mewnol dros gyfnod o amser).**

**Gweddnewid y ffordd mae gwasanaethau meddygol brys yn cael eu darparu a sicrhau bod yr ymyriadau meddygol mwyaf diweddar yn cael eu mabwysiadu ar gyfer trin argyfyngau meddygol cyffredin - er enghraifft Ymyrraeth Coronaidd Sylfaenol drwy'r Croen (triniaeth fodern trawiad ar y galon) fel y darperir yn y ganolfan arbenigol yn Abertawe.**

**Sicrhau bod holl achosion trawma difrifol yn cael eu sefydlogi a'u trosglwyddo i ganolfannau trawma yn Abertawe neu Gaerdydd (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd).**
**Sicrhau bod achosion cymhleth yn cael eu trin mewn uned(au) arbenigol lle mae'r gwasanaethau wrth gefn priodol ar gael yn rhwydd.**

**Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cynnig DEWIS B isod.**
**Byddai hyn yn amodol ar lwyddiant recriwtio a chadw ymgynghorwyr.**

**Dewis A.**

**Canoli gwasanaethau brys yn Ysbyty Glangwili (Caerfyrddin).**

**Byddai gwasanaethau mwy cyfyngedig yn cael eu darparu yn Ysbyty Bronglais (Aberystwyth) ac Ysbyty Llwynhelyg (Hwlffordd) gydag achosion brys mwy difrifol yn cael eu trosglwyddo i Ysbyty Glangwili gan ddefnyddio gwasanaeth trosglwyddo parafeddygol 24-awr mewn ambiwlans neu hofrennydd.**

**Ni fyddai Ysbyty Tywysog Philip (Llanelli) yn darparu uned derbyniadau meddygol brys mwyach, ond bydd yn darparu Canolfan Ddamweiniau Leol sy'n cael ei harwain gan nyrsys ar gyfer mân ddamweiniau**

**Dewis B. Dyma gynnig Bwrdd Iechyd Hywel Dda.**

**<u>DIM NEWID</u> i'r gwasanaethau brys cyfredol sy'n cael eu darparu yn Ysbyty Bronglais (Aberystwyth), Ysbyty Glangwili (Caerfyrddin), ac Ysbyty Llwynhelyg (Hwlffordd).**

**Ychwanegu Uned Penderfyniadau Clinigol yn Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Glangwili unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau.**

**Bydd gan Ysbyty Tywysog Philip (Llanelli) uned derbyniadau meddygol brys ynghyd â Chanolfan Ddamweiniau Leol sy'n cael ei harwain gan nyrsys ar gyfer mân ddamweiniau.**

***Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydnabod y gallai enwau rhai adrannau sy'n darparu Gofal Brys orfod newid er mwyn egluro'r gwasanaethau sydd ar gael.***

***Mae enwau rhai gwasanaethau wrthi'n cael eu hadolygu ar lefel Cymru gyfan, felly bydd angen i Fwrdd Iechyd Hywel Dda ystyried yr ymchwil cenedlaethol er mwyn gwneud yn siŵr bod enwau lleol yn gytûn â safonau cenedlaethol a byrddau iechyd eraill ledled Cymru.***

**Nodwch eich dewis ar gyfer Gwasanaethau Brys drwy ysgrifennu 1 yn y blwch ger eich dewis cyntaf, ac ysgrifennu 2 a 3 ger eich ail a'ch trydydd dewis, os yn briodol.**

dewis a ☐

dewis b ☐

dewis arall - eglurwch isod ☐

**Esboniwch y rhesymau dros eich dewis(iadau). RHOWCH EICH YMATEB YN Y BLWCH ISOD**

**<u>Gofal wedi'i drefnu</u>**

**Mae dau ddewis ar gyfer newid. Darllenwch Adran 7 o'r ddogfen.**

**Yn y cynigion ar gyfer Gofal Wedi'i Drefnu, bydd y DDAU DDEWIS yn…**

**Darparu cyfleusterau llawfeddygol pwrpasol (gwelyau a theatrau) i gefnogi llawfeddygaeth ddydd a llawfeddygaeth arhosiad byr (gan gynnwys orthopedeg) ym mhob sir.**

**Parhau i gynnal gwasanaethau orthopedig yn Ysbyty Bronglais.**

**Cynnwys datblygu timau clinigol ar draws Bwrdd Iechyd Hywel Dda a datblygu ymhellach is-arbenigedd mewn arbenigeddau llawfeddygol.**

**Gweld y gwaith o ddatblygu uned lawfeddygol arhosiad byr yn Ysbyty Tywysog Philip**
**Cynnwys gwelliannau i gardioleg a gwasanaethau diagnostig.**

**Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cynnig datblygu Canolfan Ragoriaeth Orthopedig ar gyfer cleifion sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro naill ai yn Ysbyty Tywysog Philip neu Ysbyty Llwynhelyg yn y de.**

**Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cynnig YSBYTY TYWYSOG PHILIP.**

**Nodwch ble fyddai orau gennych leoli'r Ganolfan Ragoriaeth Orthopedig yn y de.** **TICIWCH ✓ UN BLWCH YN UNIG**

- ○ *Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli*
- ○ *Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd*
- ○ *ddim yn gwybod neu nid yw'n effeithio arnaf*

**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu cyflwyno ynghylch cynigion Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar gyfer Gofal Wedi'i drefnu? RHOWCH EICH YMATEB YN Y BLWCH ISOD**

## A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

**Fel corff cyhoeddus, mae gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda ddyletswydd i ystyried effaith ei benderfyniadau ar hawliau dynol, y Gymraeg a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig (oed, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a chyfeiriadedd rhywiol) o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**

**A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a allai ddigwydd o ganlyniad i weithredu'r dewisiadau hyn?**

**Os felly, a ydych yn gallu darparu unrhyw dystiolaeth ategol a/neu awgrymu unrhyw ffyrdd y gallai'r bwrdd iechyd ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol bosibl neu wneud y mwyaf o unrhyw effaith gadarnhaol?**

**A ydych yn ystyried unrhyw faterion a allai fod yn berthnasol o ran hawliau dynol neu'r Gymraeg?**
**RHOWCH EICH YMATEB YN Y BLWCH ISOD**

**A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu cyflwyno?**
**YMATEBWCH YN Y BLWCH ISOD**

## Diolch yn fawr iawn i chi am fynegi eich barn ar y materion pwysig yma.

## Dychwelwch eich holiadur gan ddefnyddio'r amlen rhadbost, os gwelwch yn dda.